# Cyngor Cymdeithas Llanfihangelesceifiog

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn
Neuadd y Ganolfan, GAERWEN ar Nos Fawrth, 27ain TACHWEDD 2018.

1 Presennol: Cynghorwraig Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd)
Cynghorwyr Miss Linda Jones, Mrs Carol McGregor, Mr Derek Hughes,
Mr Cynrig Jones, Mr Ian Owen, Mr John Pritchard,
Mr Einion Parry Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc).
Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts.

2 Ymddiheuriadau: Cynghorwr Mr Raymond Evans
Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones.

3 CROESO & DIOLCHADAU.

3.1 Croesawyd pob aelod i'r cyfarfod gan y Cadeirydd i'r cyfarfod olaf y flwyddyn ac i ddymuno Nadolig Llawen i pawb.

3.2 Diolchwyd i Cynghorydd Cynrig Jones am baratoi y trefniadau ger y Gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio.

4 YMDDISWYDDIAD.

4.1 Derbyniwyd llythyr oddiwrth Mr Mike Jones yn dymuno ymddiswyddo fel Cynghorydd. Diolchwyd y Cadeirydd iddo am yr holl flynyddoedd o wasanaeth ac i'r Clerc anfon llythyr perthnasol ato. Fe fydd rhaid trefnu hysbysebu SEDD GWAG yn y Flwyddyn Newydd trwy law y Cyngor Sir yn y drefn arferol.

5 DATGAN DIDDORDEB.

5.1 Ni chafwyd DIM aelod yn datgan diddordeb.

6 ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIROL.

6.1 Fawr o adroddiad ond fe gyfeiriodd unwaith yn rhagor tuag at cyllideb y Cyngor Sir ac y gwaith sydd yn gwynebu'r Cynghorwyr pan ddaw'r amser penderfynnu ymestyn y Dreth.

Arwyddo.................................

5 CYWIRO & DERBYN COFNODION CYFARFOD – 23ain HYDREF 2018.

5.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod Mis Hydref 2018 yn gywir. (DH/EPW).

6 MATERION YN CODI O'R COFNODION

6.1 Llwybr Rhif 33 – roedd y Clerc wedi siarad gyda Mr Arwel Evans o'r Cyngor Sir ac mae wedi nodi ein sylwadau ac y bydd yn ymweld a'r safle rhywbryd dechrau'r flwyddyn.

6.2 Partiau Ofer y Caeau Chwarae – wedi ei dderbyn ac y bydd Cynghorydd Cynrig Jones yn cymeryd y cyfrifoldeb o'i gosod.

6.3 Ffens Gornel Rhwng yr Ysgol a Cae Chwarae Mawr – cadarnhawyd fod y gwaith wedi ei wneud.

6.4 Giat Cae Chwarae Mawr – angen anfon llythyr I'r Adran Briffyrdd yn gofyn iddynt ystyried gosod llinellau gwyn a'r Lon Groes tu allan mynediad y Cae Chwarae.

6.5 Lon Llangaffo – angen dwyn sylw Adran Briffyrdd y Cyngor Sir fod angen datrys gordyfiant ar bolyn/ffens sydd wedi siglo dan bwysau eiddew ochr isa Capel Berea ac ail-lleoli arwydd 40mya tuag at cyfeiriad Llangaffo.

6.6 Postyn Gol & Graffiti – dywedodd Cynghorydd Ian Owen fod y gwaith sydd angen mewn llaw.

6.7 Ymgynghoriad Llecynnau Agored mewn Datblygiadau Tai Newydd & Ymgynghoriad Marchnad Lleol – dywedodd y DDAU Gynghorydd Ian Owen a Einion P Williams nad oedd yr ymgynghoriadau yn perthnasol I'r Cyngor Cymuned yma.

6.8 Pwyllgor Llywodraethwyr yr Ysgol – y Clerc i gysylltu gyda Gwyn Williams er mwyn cadarnhau Cynghorydd Ian Owen fel Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Esceifiog.

6.9 Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – atgoffwyd y Clerc fod rhaid I pob aelod anfon llythyr o benderfyniad ato os am iddynt hawlio £150.00 sydd wedi ei glustnodi yn yr adroddiad fel Cynghorydd Cymunedol.

7 MATERION CYLLID.

7.1 Cysoni Taliadau, Derbyniadau & Cyfrif y Cyngor hyd at 31/10/2018 – cafwyd esboniad llawn o holl wariant y Cyngor hyd at ddiwedd Mis Hydref 2018 gan cynnwys cysoniad a datganiad y banc ac fe dderbyniwyd ac arwyddwyd y fantolen yn unfrydol.

7.2 Archwiliad Blynyddol y Cyngor – Cyflwynwyd y Ffurflen sydd wedi ei cwblhau gerbron y Cyngor ac fe cafodd ei gymeradwyo a'i dderbyn gan yr aelodau. Dywedodd y Clerc y bydd rhaid paratoi Cofrestr Asedau, sicrhau fod Pwerau Statudol A137 yn cael ei ddefnyddio yn gywir a sicrhau fod gwybodaeth amser real (RTI) ar gyfer CThEM yn cael ei wneud yn brydlon erbyn yr archwiliad nesaf.

8 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

8.1 Cais Cynllunio Llawn – Adeiladu Annedd newydd ger Bronallt, Pentre Berw - FPL/2018/21 (DIM SYLWADAU).

9 PENDERFYNIADAU ADRAN CYNLLUNIO.

9.1 Cais Orsaf Adfer Agregau – Chwarel Bwlch Gwyn – 33C190U – CANIATAD.

9.2 Cais Unedau Bryn Sunsur, Lon y Graig, Gaerwen – 33C38F – CANIATAD.

9.3 Cais Amrywio Amodau – Berw Uchaf – 33C182E/VAR – CANIATAD.

10 MATERION PRIFFYRDD.

10.1 Gorchymyn y Cyngor Sir (Gwaharddiad Traffig Dros Dro – Croesfan Rheilffordd Gaerwen) – 24ain Tachwedd am 1 wythnos.

11. ADRODDIADAU CYNRYCHIOLWYR.

11.1 Pwyllgor y Ganolfan – wedi prynnu byrddau newydd ac wedi trefnu Noson Cinema.

11.2 Ysgol Esceifiog – adroddiad fod sefyllfa parcio ger y mynedfa yn achosi pryder.

11.3 Un Llais Cymru – Dim adroddiad.

11.4 Ymgyrch y Peilonau – dyddiad cau yr ymgynghoriad – 29/11/2018.

11.5 Eisteddfod Mon – adroddiad fod Ffair Nadolig wedi ei drefnu yn y Ganolfan – 28/11/2018.

12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 29/1/2019 – Clowyd y cyfarfod am 7:50yh.

Arwyddo……………………………………………………CADEIRYDD…………………………………………Dyddiad.